

## **Gwrthateb**

I 'Nodyn Technegol: Adolygu Twf Tai a Chyflogaeth ar draws Sir y Fflint' wedi'i baratoi gan Lichfields ar ran Taylor Wimpey a Redrow, i gefnogi gwrthwynebiadau i ddogfen Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w harchwilio gan y cyhoedd.

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**MAWRTH 2020**

**Gwrthateb i 'Nodyn Technegol: Adolygu Twf Tai a Chyflogaeth ar draws Sir y Fflint' wedi'i baratoi gan Lichfields ar ran Taylor Wimpey a Redrow, i gefnogi gwrthwynebiadau i ddogfen Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w harchwilio gan y cyhoedd.**

**1. Rhagarweiniad**

- 1.1 Tra bod Lichfields wedi paratoi gwrthwynebiadau ar wahân i Bolisi Strategol STR1 Twf Strategol ar ran y datblygwyr Taylor Wimpey a Redrow, maent hefyd wedi darparu 'nodyn technegol' pellach (gweler ynghlwm) sydd, yn eu geiriau nhw, yn adolygu'r gydberthynas rhwng gofyniad tai arfaethedig a thwf cyflogaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir y Fflint i'w archwilio gan y cyhoedd. Er nad ydynt yn gwneud perthynas y nodyn technegol yma â'r gwrthwynebiadau sydd wedi'u cyflwyno ar wahân yn glir, a bod gorgyffwrdd ac ailadrodd sylweddol ynddynt, er mwyn sicrhau cyflawnrwydd ac i osgoi'r posibilrwydd o her, mae'r Cyngor wedi darparu ymateb ar wahân i'r nodyn yma.
- 1.2 Beth sydd hefyd yn aneglur yw, tra bod Lichfields yn cyfeirio at y nodyn fel un "technegol" nid ydynt wedi cynnwys unrhyw dystiolaeth empirig, data na chyfrifiadau eu hunain ac, yn bryderus o ran proses y CDLI, yn eu casgliad maent yn dweud eu bod, ar ran Taylor Wimpey a Redrow, yn cadw'r hawl i gynhyrchu Aseiad Modelu Demograffig ar gyfer Sir y Fflint, a **darparu sylwadau pellach ar y gofyniad arfaethedig, yn ystod cam nesaf yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd** (y Cyngor sydd wedi gwneud y testun yn drwm er mwyn pwysleisio).
- 1.3 Mae'r Cyngor yn ansicr ynghylch pa gyfle y mae Lichfields yn teimlo sydd ganddynt ar ran eu cleientiaid i ddarparu sylwadau pellach ac at ba gam pellach

18. Caiff person gyflwyno sylwadau am CDLI drwy eu hanfon i'r cyfeiriad, a phan fo'n gymwys, at y person a bennir yn unol â rheoliad 15(ch), o fewn y cyfnod o 6 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod y bydd yr CDLI yn cydymffurfio â rheoliad 17(a), (c) ac (ch).

o'r ymgynghoriad y maent yn cyfeirio ato.

- 1.4 Diben yr ymgynghoriad ynghylch y ddogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd oedd profi cadernid cynllun y Cyngor fel yr oedd wedi'i gyhoeddi. Yn ystod yr ymgynghoriad chwe wythnos cafodd Lichfields gyfle i ddarparu tystiolaeth lawn o unrhyw bryder oedd ganddynt ynghylch cadernid y CDLI. Os nad oedd Lichfields wedi darparu tystiolaeth berthnasol i gefnogi eu gwrthwynebiad, neu wedi bwriadu cyflwyno gwrthwynebiadau pellach ond heb wneud hynny yn ystod y cyfnod ymgynghori, yna nid bai'r Cyngor oedd hynny gan ei fod, yn unol â'i ddyletswydd, wedi cyhoeddi Cynllun cadarn i'w archwilio gan y cyhoedd a oedd yn cynnwys y dystiolaeth angenrheidiol. dewisiadau twf a ystyriwyd ar gyfer y Cynllun, cafodd y cyfnod i wneud sylwadau ar y rhain ei gynnal yn ystod cam cynharach ynghylch y

Strategaeth a Ffebrir ddiwedd 2017. Nid yw'r ffaith bod eu cleientiaid wedi methu ag ymgysylltu'n gadarnhaol ar gam cynharach o broses y CDLI yn golygu y dylid ymestyn y broses i helpu eu cleientiaid i 'ddal i fyny'.

- 1.5 Mae'r gwrthateb hwn yn dilyn strwythur penawdau nodyn Lichfields, a sylwadau'r Cyngor yn ôl yr angen.

## 2. Y Sylfaen Dystiolaeth

- 2.1 Wrth ddarparu sylwadau ar Ddewis Twf 4, sy'n tarddu o ddemograffig, a ystyriwyd gan y Cyngor ar y cam Strategaeth a Ffebrir, nid yw Lichfields yn nodi arwyddocâd y dewis hwn o ddau safbwynt:
- a. Y lefelau tybiedig o ymfudiad net a fyddai angen digwydd yn gyson yn ystod cyfnod y cynllun, i gyflawni'r lefel hon o boblogaeth a thwf aelwydydd;
  - b. Y rôl ategol y mae Dewis 4 yn chwarae o gymharu â Dewis 6 sy'n cael ei arwain gan gyflogaeth, a gynhyrchoedd lefelau tebyg o boblogaeth a thwf aelwydydd a fyddai eu hangen i gyflawni'r nod o ran twf cyflogaeth. Felly byddai'r un sefyllfa o ran ymfudiad yn berthnasol i gyflawni'r lefelau poblogaeth a thwf aelwydydd a awgrymir yn Newis 6.
- 2.2 Yn ôl Lichfields mae papur ELR a Thwf Cyflogaeth yn seiliedig ar 2015 a heb ei ddiweddar ac felly nid oes modd dibynnu arno. Lichfields wedi ceisio ei wneud, ond mae'r BE Group wedi adolygu eu gwaith blaenorol ar ELR ac Aseiad Senarios Twf Cyflogaeth 2017, dewisiadau twf y cynllun a'r gwaith rhagamcanu sy'n cefnogi'r dewisiadau amrywiol, ac wedi defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i asesu priodoldeb y berthynas rhwng lefelau twf swyddi a'r gofyn am dai a nodir yn y cynllun. Roedd y papur Cyngor ar Gyflogaeth a Thai ar gael drwy gydol yr ymgynghoriad ynghylch y ddogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd, ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.
- 2.3 Mae Lichfields yn beirniadu'r Cyngor am beidio â diweddarau ei sefyllfa o ran twf tai yng ngoleuni rhagamcaniadau aelwydydd 2014 Llywodraeth Cymru gan nodi bod dull y Cyngor yn ddiffygiol. Wedi dweud hynny, maent wedi methu egluro a dangos tystiolaeth o wahaniaeth neu effaith rhagamcaniadau aelwydydd 2014 ar y dull i bennu gofyniad tai yn seiliedig ar Ddewis Twf 6. Wrth ddweud bod y Cyngor wedi methu â'u hystyried, maent yn methu â chydabod bod y Cyngor yn ymwybodol o ragamcaniadau 2014 ond gan eu bod wedi aros yn waelodlin isel fel yn ffigyrau 2011, ac yn adlewyrchu Canllawiau ar Faterion Gweinidogion yn 2014 i beidio â dibynnu ar ragamcaniadau sy'n adlewyrchu cyfnodau tueddiadau dirwasgiad, ni fyddant yn darparu strategaeth cynllun sy'n seiliedig ar dwf swyddi y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddi. Mae paragraff 3.60 o'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd yn cyfeirio'n benodol at ragamcaniadau aelwydydd 2014 a'r ffaith nad ydynt mewn gwirionedd yn effeithio ar yr ystyriaeth o ddewisiadau twf a roddwyd oherwydd eu bod yn waelodlin lefel isel ar gyfer twf. Felly hefyd y cyfeiriad at y papur cefndir a gynhyrchoyd gan Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref

Sirol Conwy i gefnogi'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd (sylwadau ar ragamcaniadau aelwydydd 2017 disgwylidig Llywodraeth Cymru), o ran asesu goblygiadau tebygol ffigur gofynion tai'r CDLI o'r tueddiadau twf aelwydydd tebygol a ddisgwylir gan ragamcaniadau arfaethedig 2017 Llywodraeth Cymru, mae tabl 1 y papur hwnnw hefyd yn cymharu hyn â rhagamcaniadau 2008, 2011 a 2014 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

- 24 Yn dilyn ymgynghoriad y ddogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhagamcaniadau aelwydydd 2018 lle mae'r canlyniad cyffredinol ar gyfer Sir y Fflint yn dangos tuedd dwf ostyngol o'r rhagamcaniadau sy'n seiliedig ar ddemograffeg o'u cymharu â'r ffigyrau blaenorol y cyfeirir atynt uchod. Mae tabl 1 isod yn dangos y patrwm cyson o dwf aelwydydd isel a'r duedd ostyngol rhwng 2014 a 2018.

**Tabl 1. Cymhariaeth rhagamcaniadau aelwydydd 2014 a 2018 Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir y Fflint**

Blwyddyn/Amrywiolyn	2015	2018	2030	Newid 2015-30	Newid Blynyd dol
Amrywiolyn uchel 2014	65,207	66,196	69,776	4,569	305 y flwyddyn
<b>Prifswm 2014</b>	<b>65,207</b>	<b>66,128</b>	<b>68,964</b>	<b>3,757</b>	<b>250 y flwyddyn</b>
Amrywiolyn uchel 2018	65,207 <sup>1</sup>	66,231	68,682	3,475	232 y flwyddyn
<b>Prifswm 2018</b>	<b>65,207<sup>1</sup></b>	<b>66,231</b>	<b>67,696</b>	<b>2,489</b>	<b>166 y flwyddyn</b>

<sup>1</sup>Wedi defnyddio sylfaen boblogaeth 2015 o ragamcaniadau 2014 i'w cymharu â rhagamcaniadau 2018 i ymdrin â'r un cyfnod 2015-30

- 25 Gan dderbyn lefel y twf tai sy'n ofynnol dan y cynllun (6,950/463 y flwyddyn) neu'n wir a ddarperir yn y cynllun (7,950/530 y flwyddyn), mae'r twf a ddarperir ar ei gyfer yn ddwy i deirgwaith yn fwy na lefel y newid a ragwelir mewn aelwydydd yn ôl y rhagamcaniadau cenedlaethol a geir yn nhabl 1. Ar ôl ystyried yr uchod, mae'r Cyngor yn dal yn credu bod y gofyniad tai yn y CDLI yn cynrychioli lefel uchelgeisiol a realistig o dwf sy'n bosibl.

### 3. Targedau twf arfaethedig a nodir ym Mholisi STR1: Dyheadau Twf Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Cymru

3.1 Mae Lichfields yn cyfeirio'n barhaus at ddyheadau twf cenedlaethol ar gyfer gogledd Cymru ond nid ydynt yn nodi beth yw'r rhain fesul awdurdod lleol nac yn nodi'r ffynhonnell ar gyfer gwneud y datganiad hwn. Heb hyn mae'n anodd rhoi eu pryderon mewn cyd-destun priodol er mwyn asesu i ba raddau y mae'r CDLI yn simsan oherwydd na fydd yn cyfrannu at 'ddyheadau cenedlaethol'. Yn yr un modd nid yw Lichfields yn darparu unrhyw fath o ddatdamsoddiad cymharol i ddangos sut mae pob awdurdod lleol y gogledd yn cyfrannu at yr un dyheadau, gan y byddai hyn yn dangos cyfraniad Sir y Fflint drwy'r CDLI o gymharu â phawb arall.

3.2 Cyfeirir at ddogfen Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru a ddatblygwyd yn 2016 gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ble mae Sir y Fflint yn bartner cyfartal gyda'r awdurdodau eraill i geisio cyflawni twf economaidd a chyflogaeth uchelgeisiol dros gyfnod o ugain mlynedd, sy'n mynd pum mlynedd y tu hwnt i gyfnod y CDLI. Mae Lichfields yn dyfynnu o ddogfen y Weledigaeth Twf gan bwysleisio bod yn rhaid i'r rhanbarth fod yn "fwy uchelgeisiol wrth gynllunio twf tai cynaliadwy", gan ddefnyddio'r datganiad hwn i gyfiawnhau ei bryderon nad yw Sir y Fflint, drwy'r CDLI, yn ddigon uchelgeisiol wrth gynllunio ar gyfer twf tai.

3.3 Nid yw hyn yn adlewyrchiad cywir o'r hyn a nodir yn y ddogfen Gweledigaeth ar gyfer Twf oherwydd, os edrychir ar y dyfyniad llawn, mae'r ddogfen yn darparu darlun gwahanol o gyfraniad Sir y Fflint at dai. Mae'r paragraff llawn ar dudalen 11 y ddogfen Gweledigaeth ar gyfer Twf yn nodi:

*"Mae'r ddarpariaeth a ragwelir ar gyfer dyraniadau tai ar hyn o bryd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi'u mabwysiadu neu sydd ar y gweill ledled y rhanbarth (sy'n gorffen ar wahanol adegau) yn amrywio o 37,500 o gartrefi i 44,100, sy'n 2,500-3,000 o gartrefi newydd y flwyddyn. **13,100 o gartrefi wedi'u cwblhau rhwng mis Ebrill 2007 a mis Ebrill 2015 - y mwyafrif yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam.** Mae hyn yn dangos fod yn rhaid i'r rhanbarth fod yn fwy uchelgeisiol yng nghynllunio twf tai cynaliadwy."*

[Testun wedi'i wneud yn drwm gan y Cyngor er mwyn pwysleisio]

3.4 Yr awgrym clir a geir o'r datganiad hwn yw bod Sir y Fflint (a Wrecsam) eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at dwf tai i gefnogi dyhead economaidd ehangach ar gyfer y rhanbarth (sydd wedi'i gydnabod gan y partneriaid ei hunain yn y ddogfen), ac mai'r partneriaid eraill yn y rhanbarth a ddylai wella eu cyfraniad i gwrdd â'r her y mae'r holl bartneriaid wedi'i gosod, i dyfu'r economi 2.8%. Eir ymlaen yn y ddogfen weledigaeth i ddweud:

*"O ystyried y twf a ragwelir yn y rhanbarth, rhaid i fesurau fod yn eu lle i sicrhau bod cyfyngiadau a rhwystrau'n cael eu gwaredu er mwyn rhyddhau safleoedd dynodedig ar gyfer datblygiadau tai - yn enwedig mewn ardaloedd o dwf cyflogaeth uchel. (Mae'r weithred hon wedi'i chynnwys yn y Cynllun Isadeiledd yn*

*y Strategaeth). Yn ogystal bydd angen dyraniadau pellach o dir ar gyfer tai wrth i'r Cynlluniau Datblygu Lleol gael eu hadnewyddu o 2021 ymlaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni sicrhau bod y broses cynllunio defnydd tir yn cael ei hintegreiddio a'i halinio'n agos gyda'n strategaeth twf economaidd."*  
 [Testun wedi'i wneud yn drwm gan y Cyngor er mwyn pwysleisio]

- 35 Mae hyn yn pwysleisio'r pwynt a wnawn uchod o ran mai'r awdurdodau eraill, a fabwysiadodd Gynlluniau Datblygu Lleol yn gynt na Wrecsam a Sir y Fflint, sydd angen ystyried, trwy adolygu eu cynlluniau, sut y gallant gyfrannu at Weledigaeth Twf y rhanbarth fel y mae Sir y Fflint a Wrecsam yn ei wneud, yn hytrach na gadael i Sir y Fflint ar ei phen ei hun wneud cyfraniad anghymesur fel yr awgrymir gan Lichfields. I ddangos lefelau cymharol darpariaeth tai CDLI, mae tabl 2 yn cymharu twf cynlluniedig mewn CDLlau wedi'u mabwysiadu neu ar ddod allan â'r gwir gyfraddau darparu a welwyd yn ystod cyfnodau'r cynlluniau dan sylw. Sir y Fflint sydd wedi darparu'r gyfradd uchaf o dwf drwy'r CDLI, a'r unig awdurdod lle mae'r ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r twf cynlluniedig.

**Tabl 2. Cyfraddau darparu tai cynlluniedig a gwirioneddol gogledd Cymru (o fewn cyfnod y cynlluniau)**

Awdurdod Cynllunio Lleol	Cyfradd Twf Tai Cynlluniedig (CDLI) (Gofyniad + hyblygrwydd) (annedd y flwyddyn)	Gwir Gyfradd Cwblhau Tai	Gwahaniaeth / Diffyg
Sir y Fflint	530	536	+6
Wrecsam	517	260	-257
Sir Ddinbych	500	194	-306
Conwy			
Gwynedd	479	389	-90
Ynys Môn			
Parc Cenedlaethol Eryri			

- 36 Mewn ymateb i'w pwynt nad yw Sir y Fflint wedi bod yn ddigon uchelgeisiol wrth ystyried twf tai, ac yng nghyd-destun y weledigaeth uchod ar gyfer twf, ymateb Lichfields yw awgrymu y dylai Sir y Fflint gynyddu ei ofyniad tai i derfyn uchaf Dewis Twf 6 h.y. o leiaf 490 annedd y flwyddyn. Yng nghyd-destun y brif feirniadaeth nad yw twf tai Sir y Fflint yn ddigon uchelgeisiol, nid yw hyn yn ymddangos yn uchelgeisiol iawn mewn unrhyw synnwyr strategol. Yn amlwg byddai'n gyfleus cyflwyno achos i gynnwys un neu ddau o ddyraniadau tai ychwanegol yn unol â dyheadau cleientiaid Lichfields, ond mae hyn yn ymddangos yn hollol ar wahân i'r ddadl ar gyfer cyfraniadau cynaliadwy tuag at Weledigaeth Twf Economaidd Gogledd Cymru. Mae hyn hefyd yn anwybyddu'r ffaith bod y CDLI eisoes yn darparu 536 annedd y flwyddyn ar gyfartaledd dros bedair blynedd gyntaf y cynllun ac wedi darparu digon o dir ar gyfer tai (gyda thir wrth gefn) i ddarparu 530 annedd y flwyddyn a chynnal y duedd hon heb orfod ychwanegu rhagor o safleoedd tai neu gynyddu'r gofyniad tai. Nid yw hyn yn ddull pesimistaidd

i bennu gofynion tai ond yn un sy'n cydbwysu uchelgais gyda phragmatiaeth a'r angen i sicrhau darpariaeth.

#### **4. Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft**

4.1 Mae Lichfields yn cyfeirio at y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, gan gyfeirio at Sir y Fflint yn unig fel ardal graidd i gefnogi twf economaidd dan bolisi 17 y fframwaith drafft. Mae polisi 17 ar dudalen 49 y fframwaith drafft yn cyfeirio at "Wrecsam a Glannau Dyfrdwy" yn hytrach na chanolbwyntio ar Sir y Fflint yn unig fel yr awgrymai Lichfields. Yn ôl Lichfields nid yw'r cyfeiriad hwn at Lannau Dyfrdwy (Sir y Fflint) wedi'i adlewyrchu yn ffigwr gofynion tai arfaethedig y Cyngor, ond ni cheir cyfeiriad ym mholisi drafft 17 at unrhyw ofyniad twf tai y mae gofyn i Wrecsam, Glannau Dyfrdwy (Sir y Fflint) neu unrhyw ardal arall yn y gogledd ei ddarparu, na sut dylid rhannu'r gofyniad hwnnw. Nid yw Lichfields ychwaith yn cydnabod polisi drafft 16 Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol sy'n gofyn i bob rhanbarth yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol sy'n sicrhau eu bod yn bodloni gofynion polisi 16. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys:

- Y ddarpariaeth dai a'r gofynion
- Y ddarpariaeth ar gyfer cyflogaeth
- Ardaloedd gofodol ar gyfer twf tai a chyflogaeth, ynni adnewyddadwy a nodi lleiniau glas, coridorau glas a thirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol
- Lleoliad gwasanaethau allweddol, cludiant ac isadeiledd cysylltiadau

4.2 Y sbardun clir yn y fan hyn, er y ffocws ar Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a'r aneddiadau ar hyd yr arfordir (polisi 18), yw bod yn rhaid cynllunio a chytuno ar dwf a buddsoddiadau yn y dyfodol ar sail strategol yn y gogledd drwy Gynllun Datblygu Strategol a fydd yn gosod y cyd-destun ar gyfer CDLlau yn nhermau lleoliad a dosraniad twf. Ni cheir y fath Gynllun Datblygu Strategol eto gan mai'r flaenoriaeth ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint yw ymgymryd â'u dyletswyddau unigol i feddu ar gynllun datblygu cyfoes. Gellir dadlau bod gweithredu Bargen Dwf Gogledd Cymru yn darparu'r cyfle i gynllunio'n strategol ac yn unol â gofynion polisi 16 y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Ond, hyd nes y bydd hynny'n digwydd, mae'n rhy fuan i roi pwyslais gormodol ac anghynaliadwy ar Sir y Fflint i fodloni'r gofynion rhanbarthol hyn yn anghymesur a gwneud iawn am ddarpariaeth is mewn ardaloedd eraill.

4.3 Mae Lichfields hefyd yn cyfeirio at yr angen yn y Fframwaith drafft i ddarparu lefelau uchel o dai fforddiadwy yng ngogledd Cymru yn ystod blynyddoedd cyntaf y Fframwaith, gyda hyd at 51% o'r holl dai sydd eu hangen yn y cyfnod hwnnw yn dai fforddiadwy. Yn yr asesiad hwn o'r angen, yr angen pennaf yw tai cymdeithasol - sy'n gwneud hi'n anoddach fyth cyflawni darpariaeth y lefel hon drwy'r system gynllunio'n unig. I fod yn deg nid yw'r Fframwaith yn dweud mai'r system gynllunio ar ei phen ei hun a ddylai ysgwyddo baich yr her hon, ac mae hwn yn amcangyfrif o'r hyn sydd ei angen yn hytrach na'r hyn y mae modd ei ddarparu. Er gwaethaf


barn Lichfields mai'r ateb yn syml yw dyrannu mwy o dai i fodloni'r gofyniad hwn, nid ydynt chwaith ynnodi beth ddylai'r gofyniad uwch hwnnw fod ar draws y gogledd nac yn egluro, o safbwynt eu cleientiaid, sut mae datblygwyr tai prif ffrwd yn gallu, neu a ydynt yn fodlon, gwneud hyd at 51% o'u tai ar safleoedd datblygu i'r farchnad yn dai cymdeithasol/fforddiadwy. Yn wir, mae Redrow ac eraill wedi gwrthwynebu polisi tai fforddiadwy'r CDLI, yn arbennig y cynnig bod 40% o dai ar safleoedd rhai ardaloedd is-farchnad yn dai fforddiadwy. Felly mae'n anodd gweld sut, hyd yn oed os ychwanegir mwy o safleoedd yn y cynllun yn unol ag awgrymiadau Lichfields, y byddai'n dderbyniol neu'n hyfyw i'w cleientiaid ddarparu'r safleoedd hyn gyda 51% o'r tai yn rhai fforddiadwy.

## 5. Darpariaeth Flaenorol

- 5.1 Mae Lichfields yn beirniadu'r sylfaen dystiolaeth y Cyngor ac yn dweud ei fod wedi dyddio, yn arbennig mewn perthynas â'r dogfennau cefndir sy'n ymwneud ag Adolygiad Tir Cyflogaeth (2015) a'r ddogfen ategol 'Asesiad Senarios Twf Cyflogaeth Pellach Sir y Fflint' a gynhyrchwyd yn 2017, ond maent hefyd yn cyfeirio at ddogfen o'r enw Cyngor ar Gyflogaeth a Thai a gynhyrchwyd yn 2019 - dogfen ym marn y Cyngor oedd mor gyfoes â phosibl cyn creu'r ddogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd. Hefyd, nid hwn ffynhonnell wreiddiol y data cwblhau tai y mae Lichfields yn cyfeirio ato. Mae'r data hwn yn deillio o astudiaethau argaeledd tir blynyddol, sy'n parhau i gael eu cynnal yn unol â methodoleg TAN1 ar ffurf Datganiadau Monitro Tir ar gyfer Tai er gwaethaf anallu'r Cyngor i gyhoeddi astudiaeth ffurfiol. Mae Lichfields yn cyfeirio at y ddarpariaeth dai yn ystod tair blynedd gyntaf y cynllun, sy'n cynnig 568 annedd y flwyddyn, ac mae Lichfields yn tynnu sylw at y ffaith bod hon yn uwch na'r twf cynlluniedig cyfartalog ar gyfer cyfnod llawn y cynllun (463 annedd y flwyddyn) ac maent hefyd yn amlygu'n ddetholus bod y cyfraddau cwblhau mewn dwy o flynyddoedd cyntaf y cynllun yn fwy na 600 annedd y flwyddyn. Maent yn defnyddio hyn i dynnu sylw at ba mor "hawdd" yw cyflawni'r lefelau darparu ac felly y dylid gosod y gofyniad tai yn uwch.
- 5.2 Nid yw'r Cyngor yn credu, oherwydd bod cyrraedd lefel benodol yn bosibl yn y tymor byr, na ddylai hynny olygu cynyddu'r gofyniad tai gan nad yw hynny'n ymddangos yn gynaliadwy, yn ddoeth nac yn ddull ar sail tystiolaeth o bennu gofynion tai'r CDLI. Mae hefyd yn dibynnu ar y tueddiadau byrraf (dim ond tair blynedd) i ragamcanu dros 15 mlynedd y cynllun, ond heb unrhyw dystiolaeth i gefnogi gallu'r farchnad a'r diwydiant i gynnal cyfraddau darparu mor uchel. Yn wir, mae'r Cyngor erbyn hyn wedi cynhyrchu ei ddatganiad argaeledd tir ar gyfer 2019 sy'n dangos bod y cyfraddau darparu ar gyfer pedwaredd flwyddyn y cynllun wedi gostwng i 421 ac felly'n is na chyfartaledd cynlluniedig y CDLI, a bod lefel y CDLI ar gyfer 2017 hefyd heb ei gyflawni (454).
- 5.3 Felly mae'r gyfradd ddarparu gyfartalog wedi gostwng yn sylweddol i 536 annedd y flwyddyn o'r 568 annedd y flwyddyn y mae Lichfields yn cyfeirio ato, a hynny mewn 12 mis. Mae hyn hefyd yn amlygu amrywioldeb sylweddol yn y lefelau darparu blynyddol mewn cyfnod lle ceir marchnad dai gynyddol a lle mae gan Sir y Fflint dir



wedi'i ymrwymo'n glir i gwrdd â gofynion y Cynllun. Tra bod y Cynllun yn gofyn am ddarparu 463 annedd y flwyddyn, mae wedi darparu'r gallu i ddarparu 7,950 o gartrefi, 530 annedd y flwyddyn, sydd bron yn debyg i'rcyfartaledd pedair blynedd presennol. Mae hyn yn dangos yn glir bod y Cynllun ar y trywydd cywir o ran darparu ac wedi gosod y gofynion a'r hyblygrwydd ar y lefelau cywir (gweler ffigur 1).



**Ffigur 1. Cyfraddau Darparu Tai Sir y Fflint**

5.4 O safbwynt y Cyngor, mae'r asesiad uchod o'r ddarpariaeth yn dangos cadernid y dull a ddefnyddir i bennu ffigyrau gofynion tai cyraeddadwy yn y Cynllun, ynghyd â lefel addas o hyblygrwydd. Mae hon yn sefyllfa gadarn. Yr hyn sy'n llai eglur yw cynnig gofyniad uwch fel sefyllfa gadarn. Byddai hyn yn gofyn am dystiolaeth sylweddol nad yw wedi'i chyflwyno eto, i ddangos sut mae modd i'r farchnad a'r diwydiant datblygu gynnal cyfraddau darparu llawer uwch o un flwyddyn i'r llall yn ystod cyfnod y Cynllun, o ystyried yr amrywioldeb hyd yma a welir yn y gwir ddata cwblhau, a'r ansicrwydd cyfartal dros nifer y safleoedd ychwanegol a fyddai angen a lle mae'r rhain. Gan gyfeirio at dabl 2, mae CDLI Sir y Fflint wedi darparu ar gyfer mwy o dai nag unrhyw Gynllun Datblygu Lleol arall yng ngogledd Cymru ac, yn wahanol i gynlluniau eraill yn y gogledd, mae Sir y Fflint yn darparu tai ar y cyfraddau darparu cynlluniedig yn ystod oes y cynllun.

## 6. Gor-ddarparu Tir Cyflogaeth

6.1 Mae Lichfields wedi beirniadu dull y Cyngor o ddyrannu lefel uwch o dir cyflogaeth a awgrymwyd gan y rhagolygon economaidd yn yr ELR ac Asesiad Senarios Twf Cyflogaeth Pellach Sir y Fflint. Maent hefyd yn dweud y dylai'r Cyngor, gan fod

ganddo bortffolio eang o dir cyflogaeth wedi'i ddyrannu, ddyrannu lefel uwch o dai, gan fod y ddau ofyniad ar hyn o bryd allan ohoni.

62 Drwy ddweud hyn mae Lichfields wedi methu â chydabod nifer o ffactorau sydd wedi'u nodi'n glir yn sylfaen dystiolaeth y Cyngor:

- Cefnogaeth ffurfiol Llywodraeth Cymru i strategaeth ofodol y cynllun a lefel y cartrefi a'r swyddi arfaethedig ac nad oes ganddynt unrhyw bryder yn hyn o beth
- Maent wedi methu â chydabod bod y prosesau a ddefnyddir i gyrraedd gofyniad tai'r cynllun a'r ffigwr ar gyfer dyheadau swyddi yn wahanol iawn. Yn eu hanfod, mae gofynion tai wedi'u sbarduno drwy gyfeirio at ragamcaniadau cenedlaethol sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer newidiadau mewn aelwydydd ond ni cheir rhagamcaniadau tebyg ar lefel genedlaethol ar gyfer twf swyddi disgwylidig pob awdurdod lleol. Dyma pam ei bod yn dderbyniol cael portffolio eang o dir cyflogaeth sydd ar gael i hwyluso twf swyddi, ond mae'n rhaid i'r safleoedd tai ar gyfer bodloni'r gofynion gael eu nodi'n glir ynghyd â thystiolaeth o'u gallu i fodloni'r gofynion. Hefyd, nid oes ychwaith berthynas fformiwläig y mae'r Cyngor yn ymwybodol ohoni rhwng gofynion tai a lefelau twf swyddi a ofynnir amdani mewn cynlluniau datblygu.
- Mae eglurhad eisoes wedi'i ddarparu uchod ynglŷn â rôl a chyfraniad y Cyngor at y rhaglen dwf ranbarthol a gofynion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, gyda Llywodraeth Cymru wedi nodi'n ffurfiol bod y CDLI yn cydymffurfio â'r Fframwaith
- Yn ôl Lichfields oherwydd bod gan Sir y Fflint bortffolio dyraniad tir cyflogaeth mawr dylai gynyddu ei ofynion tai, ond nid yw'r dull syml wedi'i brofi pan astudir y dyraniadau cyflogaeth cyffredinol a nodir ym mholisi PE1. Tra bod y cynllun yn dyrannu 139 ha o dir cyflogaeth, sy'n uwch na rhagolwg a gynhyrchwyd gan ymgynghorwyr cyflogaeth y Cyngor (BE Group), mae 68% o gyfanswm y dyraniadau (95 ha) eisoes wedi'u hymrwymo ar y ddau safle strategol a nodir yn y cynllun yn Warren Hall a Phorth y Gogledd, gyda'r ddau safle wedi derbyn caniatâd cynllunio. Yr hyn sy'n weddill wedyn yw 45 ha neu 32% o gyfanswm y ddarpariaeth dir, sy'n cynnwys 12 safle. Y nod pragmatig yw darparu digon o safleoedd ac ystod o ddewisiadau i fuddsoddwyr er mwyn creu'r amodau i wireddu dyheadau twf swyddi strategaeth y Cynllun

63 O ran cysylltu'r ddau ofyniad ar gyfer twf tai a chyflogaeth, mae'r Cyngor o'r farn bod y ddau'n alinio'n glir o fewn y Cynllun i gefnogi uchelgais twf y strategaeth.

7.

- 7.1 Nid yw'n glir pa ffynhonnell y mae Lichfields wedi dibynnu arni ar gyfer y niferoedd maent yn cyfeirio atynt oherwydd, yn gyntaf, mae cynnig twf swyddi'r Cyngor wedi'i osod fel amrediad o rhwng 8,000 a 10,000 ac nid ffigwr absoliwt o 10,000 fel yr awgrymir ganddynt. Hefyd, tra bod Lichfields yn dyfynnu ffigwr aneddiadau o 8,050 mewn perthynas â'r dewis twf yn seiliedig ar swyddi, mae hwn wedi dyddio ac mae'r gwir ffigyrau o'r cynllun yn nodi twf aneddiadau o rhwng 6,550 a 7,350 yn seiliedig ar redeg y model rhagamcaniadau 'am yn ôl' o'r targed swyddi, gan gynhyrchu rhagamcaniad poblogaeth a llafur i gefnogi hynny, yna lefel yr aelwydydd a thwf aneddiadau a fyddai'n deillio o'r twf hwnnw mewn poblogaeth. Daw'r gofyniad tai o ganol yr amrediad hwn, gyda hyblygrwydd o 14.4% wedi'i ychwanegu ato.
- 7.2 Mae Lichfields hefyd wedi defnyddio dull fformiwla i gyfrifo perthynas rhwng swyddi a thai ond nid yw'r Cyngor yn credu bod hyn yn ddull doeth na chynaliadwy. Mae Lichfields hefyd yn methu'r pwynt. Er mwyn cyflawni lefel twf aneddiadau fel y rhagfynegir yn Newis Twf 6 (neu ddewis 4), byddai angen lefelau uchel o ymfudiad net i greu'r lefel honno o alw am dai a ddarperir yn y cynllun. Yn amlwg daw'r galw yma o ddenu pobl i'r ardal at ddibenion economaidd. Os nad yw'r tybiaethau ymfudo ac economaidd yn dwyn ffrwyth, yna mae angen cwestiynu a fydd y galw am dai a nodir yn y cynllun yn dod yn ffaith, heb sôn am y ffigwr uwch a geir yn ddyfaliadol.

### **Cymudo**

- 7.3 Mae TW yn cyfeirio ar yr angen i gynnal y cyfraddau cymudo uchel blaenorol (40%) yn hytrach na'r tybiaethau sydd wedi'u gwneud fel rhan o ddatblygu dewisiadau twf y CDLI. I gefnogi hyn maent yn dweud bod y Cyngor yn tybio bod modd cynnal y lefelau twf swyddi uwch gyda'r un boblogaeth. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cydnabod bod yn rhaid i ymfudiad net y sir, er mwyn cyflawni'r twf tai a nodir yn y cynllun, gael ei annog ar lefel gyson uchel na welwyd yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf. Dyma'r newid sylweddol i ddenu pobl 'newydd' i'r sir i gynnal twf swyddi a gwella hunan-ffeithlonrwydd mewnol yn yr economi y mae'r twf strategol yn seiliedig arno a, thrwy hynny, lleihau'r ddibyniaeth ar gymudo y tu allan i'r sir. Os nad yw'r lefelau ymfudiad yn digwydd yna bydd lefel y tai sydd ei hangen yn llawer is, fel y nodir gan y lefelau isel o dwf aelwydydd a geir yn Rhagamcaniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn 2018. Mae'r lefelau cymudo is yn y cyfrifiad wedi'u defnyddio ar gyfer swyddi cymharol newydd yn unig - i alinio â'r duedd gyffredinol i annog economi gwyrdd, teithio gwyrdd ac i leihau allyriadau carbon ac ati, sydd wedi'i adlewyrchu mewn polisiau eraill yn y cynllun. Yn amlwg, mae effaith gynnar pandemig Covid-19 wedi dangos tuedd hirdymor ar gyfer gweithio gartref ac felly llai o ddibyniaeth ar gymudo i'r gwaith.

### **Preswylwyr Hŷn**

- 7.4 Mae yna ddarpariaeth yn y ffigwr tai ar gyfer twf yn nifer y bobl dros oed ymddeol yn yr ardal, yn unol â thueddiadau'r gorffennol. At hyn, mae'r ysgogwyr newydd ar gyfer twf o fewn y strategaeth yn ymwneud â chreu swyddi. Mae'r dybiaeth y bydd hyn yn cynyddu ymfudiad yn y boblogaeth oedran gweithio yn un cadarn. Nid oes

polisi yn y CDLI i annog mewnfudo ychwanegol ymhlith grwpiau oedran hŷn dros y cyfraddau sydd eisoes wedi'u gweld, a ni cheir tystiolaeth (na thystiolaeth gan Lichfields) i awgrymu bod swyddi newydd yn denu mwy o bobl wedi ymddeol i'r ardal. Cynigir bod y ddarpariaeth tai newydd yn cwrdd â'r cynnydd a ragamcanwyd mewn gofynion anheddau yn y sir a bod tai newydd yn debygol o gael eu meddiannu gan bobl o bob oed a chefnidir, gan gynnwys pobl sydd eisoes yn byw yn yr ardal.

### **Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd.**

- 7.5 Mae'r holl dybiaethau mewn unrhyw fodelu data yn fympwyol, gan fod yn rhaid i rywun wneud penderfyniad ynghylch beth yw mewnbwn data hyfyw. Ni cheir data OBR ar lefel ardal fach, fel yr awgrymir gan yr ymatebydd, a byddai defnyddio cyfraddau cenedlaethol ar gyfer Sir y Fflint yn aflunio'r ffigyrau yn sylweddol. Mae defnyddio tueddiadau'r gorffennol yn ddull sefydledig i ragamcanu cyfeiriad twf yn y dyfodol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn aml iawn yn defnyddio tuedd tair blynedd ar gyfer llawer o setiau data ar lefel leol, sydd ar daflwybr hirdymor penodol ond sy'n dangos anweddolrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd y sampl data cymharol fach, er mwyn osgoi newid sylweddol yn y model.

### **Rhagamcaniadau yn seiliedig ar 2011 a 2014**

- 7.6 Mae'r Cyngor yn cytuno bod angen ystyried rhagamcaniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2018, sydd bellach wedi'u cyhoeddi, yng nghyd-destun y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Cyfeirir Lichfields at yr adran uchod (paragraffau 2.4, 2.5, tabl 1) lle ceir cymhariaeth rhwng rhagamcaniadau yn seiliedig ar 2014 a 2018 o newid mewn aelwydydd ar gyfer Sir y Fflint ac sy'n dangos tuedd ostyngol a ffigyrau 2018 yw'r ffigyrau isaf o'r fersiynau sydd wedi'u cyfeirio atynt (gan hefyd gynnwys cyfeiriad at rhagamcaniadau 2011). Yn y cyd-destun hwn mae'r Cyngor yn ansicr ynghylch pwynt Lichfields bod y cyfeiriad atynt yn debygol o arwain at ofyniad tai uwch.

## **8. Casgliadau**

